CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1335 (Cy.128)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 (sef, yn fras, disgyblion 14 - 16 oed) sy'n mynychu ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol, ac ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig (ac eithrio ysgolion a gynhelir mewn ysbytai) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwyddoniaeth mewn perthynas â disgybl os yw pennaeth yr ysgol wedi'i fodloni bod y disgybl yn dilyn cwrs sy'n arwain at gymhwyster allanol a gymeradwywyd o dan y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar lefel mynediad, ar lefel 1 neu ar lefel 2. Y gofynion a ddatgymhwysir yw'r rhai a bennir yn adran 106 o Ddeddf Addysg 2002, sy'n darparu bod y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer cyfnod allweddol 4 i gynnwys gwyddoniaeth (ymhlith pynciau eraill) a'i fod i bennu targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio a threfniadau asesu ar gyfer y pwnc hwnnw. Mae'r targedau cyrhaeddiad a'r rhaglenni astudio ar gyfer gwyddoniaeth wedi'u cynnwys ar hyn o bryd mewn Dogfen o'r enw 'Science in the National Curriculum' (ISBN 07504 24028), y mae copïau ohoni ar gael o The Stationery Office Limited. Nid oes unrhyw drefniadau asesu.

Mae'r datgymhwyso yn gymwys am gyfnod cyfyngedig o 2 flynedd (sy'n dod i ben ar ddiwedd Gorffennaf 2008).

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1335 (W.128)

# EDUCATION, WALES

## The Education (National Curriculum for Wales) (Disapplication of Science at Key Stage 4) Regulations 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations apply to pupils in key stage 4 (broadly 14 - 16 year olds) attending community, foundation and voluntary schools and community and foundation special schools (other than schools maintained in hospitals) in Wales. The Regulations disapply the requirements of the National Curriculum for Wales for science in relation to a pupil if the head teacher of the school is satisfied that the pupil is pursuing a course leading to an approved external qualification from the National Qualifications Framework at entry level, level 1 or level 2. The requirements disapplied are those specified in section 106 of the Education Act 2002, which provides that the National Curriculum for key stage 4 is to comprise science (amongst other subjects) and is to specify attainment targets, programmes of study and assessment arrangements for that subject. The attainment targets and programmes of study for science are currently contained in a Document entitled 'Science in the National Curriculum' (ISBN 07504 24028), copies of which are available from the Stationery Office Limited. There are no assessment arrangements.

The disapplication applies for a limited period of 2 years (expiring at the end of July 2008).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1335 (Cy.128)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *16 Mai 2006* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2006* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 112 a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006 a deuant i rym ar 1 Awst 2006.

(2) Maent yn gymwys i ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn unig.

**Dehongli**

**2**.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "ACCAC" ("*ACCAC*") yw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru neu'r Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales(**2**);

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "NQF" ("*NQF*") yw'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sy'n cynnwys cymwysterau a achredir ar y cyd gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n arfer swyddogaethau a freiniwyd

(**1**) 2002 p.32. ystyr 'Regulations' (o ran Cymru) yw rheoliadau sy'n cael eu gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol; gweler adran 212(1).

(**2**) *Gweler* adran 27 o Ddeddf Addysg 1997, p.44. *Gweler* O.S. 2005/3239 ynghylch diddymu ACCAC a throsglwyddo ei swyddogaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1335 (W.128)

# EDUCATION, WALES

## The Education (National Curriculum for Wales) Disapplication of Science at Key Stage 4) Regulations 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *16 May 2006* |
| *Coming into force* | *1 August 2006* |

In exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 112 and 210(7) of the Education Act 2002(**1**), the National Assembly for Wales hereby makes the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Education (National Curriculum for Wales) (Disapplication of Science at Key Stage 4) Regulations 2005 and they come into force on 1 August 2006.

(2) They apply only to maintained schools in Wales.

**Interpretation**

**2**.-(1) In these Regulations-

"the 2002 Act" means the Education Act 2002;

"ACCAC" ("*ACCAC*") means the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales or Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (**2**);

"the fourth key stage" ("*y pedwerydd cyfnod allweddol*") is to be construed in accordance with section 103(1) of the 2002 Act;

"maintained school" ("*ysgol a gynhelir*") means a community, foundation or voluntary school or a community or foundation special school (other than one established in a hospital);

(**1**) 2002 c.32. 'Regulations' means (in relation to Wales) regulations made by the National Assembly see section 212(1).

(**2**) *See* section 27 of the Education Act 1997, c.44. *See* S.I. 2005/3239 for abolition of ACCAC and transfer of its functions to the National Assembly.

gynt yn ACCAC a'r awdurdodau rheoleiddio cyfatebol ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon(**1**), ac ystyr "lefel" ("*level*") yw'r lefel yr achredir cymhwyster ati o fewn yr NQF;

mae "y pedwerydd cyfnod allweddol" i'w ddehongli yn unol ag ystyr "*the fourth key stage*" yn adran 103(1) o Ddeddf 2002; ac

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig (ac eithrio un a sefydlwyd mewn ysbyty).

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at ofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwyddoniaeth yn y pedwerydd cyfnod allweddol yn gyfeiriadau at ofynion adran 106(1) o Ddeddf 2002 i'r graddau y maent yn gymwys i wyddoniaeth(**2**).

**Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4**

**3**.-(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 4, ni fydd gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwyddoniaeth yn y pedwerydd cyfnod allweddol yn gymwys i ddisgybl mewn ysgol a gynhelir ar unrhyw bryd pan fo pennaeth yr ysgol wedi'i fodloni bod y disgybl yn dilyn cwrs sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster gwyddoniaeth perthnasol.

(2) At ddibenion paragraff (1), mae cymhwyster yn gymhwyster gwyddoniaeth perthnasol-

(a) os yw, ar yr amser perthnasol, wedi'i gymeradwyo o dan adran 99 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**3**), at ddibenion adran 96(2)(b) o'r Ddeddf honno, fel cymhwyster allanol y caniateir i'r cwrs sy'n arwain ato gael ei ddarparu gan neu ar ran ysgol a gynhelir, a

(b) os yw'r cymhwyster yn gymhwyster mewn gwyddoniaeth yn yr NQF ar y lefel mynediad, ar lefel 1 neu ar lefel 2.

**Dyddiad Dod i Ben y Rheoliadau**

**4**.-(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn peidio â bod yn gymwys ar ddiwedd Gorffennaf 2008.

(**1**) *Gweler* O.S. 2005/3239 ynghylch diddymu ACCAC a throsglwyddo ei swyddogaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yr awdurdodau cyfatebol yw Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (Lloegr) a'r Cyngor dros Gwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (Gogledd Iwerddon). Rhestrir y cymwysterau yn ôl categori a lefel. Gellir gweld y Fframwaith ar www.qca.org.uk.

(**2**) Mae'r targedau cyrhaeddiad a'r rhaglenni astudio cyfredol wedi'u nodi yn y Ddogfen 'Science in the National Curriculum' (ISBN 07504 24028), sydd ar gael o The Stationery Office Limited. Nid oes unrhyw drefniadau asesu.

(**3**) 2000 p.21.

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales; and

"NQF" ("*NQF*") means the National Qualifications Framework comprising qualifications accredited jointly by the National Assembly exercising functions formerly vested in ACCAC and the corresponding regulatory authorities for England and Northern Ireland (**1**), and "level" means the level ("*lefel*") to which a qualification is accredited within the NQF.

(2) For the purposes of these Regulations, references to the requirements of the National Curriculum for Wales for science at the fourth key stage are references to the requirements of section 106(1) of the 2002 Act in so far as they apply to science(**2**).

**Disapplication of Science at Key Stage 4**

**3**.-(1) Subject to regulation 4, the requirements of the National Curriculum for Wales for science at the fourth key stage are not to apply to a pupil at a maintained school at any time when the head teacher of the school is satisfied that the pupil is pursuing a course leading to the award of a relevant science qualification.

(2) For the purposes of paragraph (1), a qualification is a relevant science qualification if-

(a) it is, at the material time, approved under section 99 of the Learning and Skills Act 2000(**3**), for the purposes of section 96(2)(b) of that Act, as an external qualification the course leading to which may be provided by or on behalf of a maintained school, and

(b) the qualification is a qualification in science in the NQF at Entry level, level 1 or level 2.

**Expiry of Regulations**

**4**.-(1) These Regulations cease to apply at the end of July 2008.

(**1**) *See* S.I. 2005/3239 for abolition of ACCAC and transfer of its functions to the National Assembly. The corresponding authorities are the Qualifications and Curriculum Authority (England) and the Council for Curriculum, Examinations and Assessment (Northern Ireland). Qualifications are listed by category and level. The Framework may be accessed on www.qca.org.uk.

(**2**) The current attainment targets and programmes of study are set out in the Document 'Science in the National Curriculum' (ISBN 07504) which is available from the Stationery Office Limited. There are no assessment arrangements.

(**3**) 2000 c.21.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

16 Mai 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

16 May 2006

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W310/05/06 ON